# SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU (SYYC)

Coleg y Celfyddydau a’r Dyniaethau
Prifysgol Bangor

Rhifyn 1 Gwanwyn 2016

## DATGLOI'R POTENSIAL - ARCHWILIO'R POSIBILIADAU: MAPIO DYFODOL CASGLIADAU YSTADAU PRIFYSGOL BANGOR

### BYDD GRANT CRONFA BANGOR YN TRAWSNEWID SUT Y DEFNYDDIR ARCHIFAU'R BRIFYSGOL

Roedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru a'r Archifau a’r Casgliadau Arbennig yn falch iawn o dderbyn grant o £5,000 oddi wrth Gronfa Bangor ym mis Tachwedd 2015. Bydd y grant hwn gan Gronfa Bangor, a gyllidir trwy gyfraniadau hael rhoddwyr ac alumni, yn chwarae rhan bwysig i ryddhau potensial ymchwil ac addysgol y corff sylweddol o gasgliadau teuluoedd ac ystadau a gedwir yn archifau'r brifysgol.

Oherwydd maint a chymhlethdod y casgliadau, mae llawer o'u cynnwys wedi bod yn 'guddiedig' cyn hyn. Amcan y prosiect yw ymchwilio ac darganfod yr adnodd gwych hwn. Trwy gydol 2016 bydd tîm y prosiect yn gweithio ar ddatblygu dealltwriaeth gliriach o gyfansoddiad, cynnwys a chymeriad casgliadau’r ystadau, trwy gynnal trosolwg systematig. Bydd hyn yn nodi eitemau o ddiddordeb arbennig, llunio proffil i bob casgliad a thynnu sylw at y themâu a'r pynciau sy'n rhychwantu'r gwahanol gasgliadau.

Bydd yr hyn a ganfyddir yn golygu y gellir cynnwys y casgliadau yn haws mewn rhaglenni dysgu trwy’r brifysgol a bydd yn sail i lunio cyfres o gynigion ar gyfer prosiectau ymchwil y mae'r Sefydliad yn bwriadu eu datblygu dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Mae cyllid ar gael hefyd i hyrwyddo'r casgliadau fel rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru.

Cyflawnir hyn trwy greu gwell deunydd ar-lein, yn cynnwys digideiddio dogfennau, a thrwy Ddiwrnod Agored Ymchwil a fydd yn dangos gwerth a photensial casgliadau ystadau.

Mae tîm y prosiect yn awyddus iawn i gychwyn ar y prosiect. Os hoffech ymuno â'r tîm fel gwirfoddolwr, anfonwch eich ymholiadau drwy e-bost at iswe@bangor.ac.uk

I ddysgu mwy am Gronfa Bangor a sut y gallwch wneud gwahaniaeth ewch i http://www.bangor.ac.uk/giving/annual_fund.php.cym



*Archifau a Chasgliadau Arbennig PB: 'Golygfa Hela' o Memoirs of the life of the late John Mytton, Esq. of Halston, Shropshire (1837).*


| t2 | tt3 - 6 | t7 | tt8 - 9 | t10 |
|---|---|---|---|---|
| Beth yw SYYC? | Newyddion | Cyfres Seminarau SYYC | Prosiectau Cyfredol | Digwyddiadau |

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## BETH YW SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU (SYYC)?

Bu ystadau yn rhan bwysig o fywyd Cymru ers canrifoedd. Y rhain oedd wrth wraidd llawer o agweddau cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol, economaidd a diwydiannol ar gymunedau yng Nghymru. Mae effaith ystadau ar hanes a thirwedd y genedl wedi bod yn enfawr.

Ar ryw adeg neu'i gilydd mae blaenoriaethau ystâd, boed yn adeiladau o bob math, ffyrdd, caeau, gwrychoedd, waliau a therfynau, coedlannau, parciau a gerddi, a safleoedd diwydiannol fel mwyngloddiau a chwareli, wedi dylanwadu ar a siapio bron pob troedfedd sgwâr o dirwedd Cymru.

Nod Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru (SYYC) yw hyrwyddo ymchwil i hanes, dylanwad a threfniadaeth ystadau ledled Cymru.

Sefydlwyd SYYC yn 2013, ac mae'n gweithredu fel partneriaeth fywiog rhwng Coleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig. Mae llawer o'n gwaith wedi ei seilio ar yr egwyddorion canlynol:

### YMCHWIL ARLOESOL:

Mae'r Sefydliad yn gweithredu fel canolbwynt cydlynu cenedlaethol i ddatblygu a hyrwyddo ymchwil sy'n canolbwyntio ar ystadau Cymru. Ein hamcan yw datblygu proffil ymchwil amlddisgyblaethol o safon ryngwladol, wedi'i seilio ar brosiectau a chynlluniau sy'n ymwneud â threftadaeth ystadau hynod gyfoethog Cymru - yn cynnwys archifau, tirweddau, pensaernïaeth, llenyddiaeth ac amrywiaeth o ddiwylliant gweledol a materol.

### CASGLIADAU NODEDIG:

Mae Prifysgol Bangor mewn sefyllfa unigryw i fod yn gartref i SYYC. Mae ein harchifau yn gartref i un o gasgliadau helaethaf a mwyaf sylweddol y genedl o bapurau teulu ac ystâd, sy'n cynnig llwyfan rhagorol i brosiectau arloesol. Ein nod yw adeiladu ar arbenigedd presennol y brifysgol er mwyn hyrwyddo'n llawn y potensial cyffrous sy'n gysylltiedig â chasgliadau ystadau ledled Cymru.

### FFYNNU DRWY BARTNERIAETH:

Mae SYYC wedi ymrwymo i ddatblygu partneriaethau â sefydliadau y tu allan i'r brifysgol, i ddatblygu prosiectau a chynlluniau a fydd yn rhoi manteision pellgyrhaeddol i bawb fel ei gilydd. Boed yn gweithio gyda cheidwaid plastai ac ystadau Cymru, cydweithredu â sefydliadau treftadaeth ddiwylliannol cenedlaethol a lleol, neu ddatblygu prosiectau ar y cyd â phrifysgolion eraill, mae cydweithio'n ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

### EICH TREFTADAETH:

Rydym yn sylweddoli bod ein deunydd, sef hanes cymunedau ar hyd a lled y wlad, hefyd yn perthyn i bobl Cymru. Mae SYYC yn eiddgar iawn i wneud cyfraniad i gyfoethogi hanes Cymru a'i ledaenu; hanes yr ydym yn credu a ddylai chwarae rhan allweddol yn y gymdeithas Gymreig heddiw ac yn y dyfodol. Wrth i ni ddarganfod, ymchwilio a datgelu hanes ystadau Cymreig, rydym eisiau sicrhau bod ein darganfyddiadau a'n profiadau'n cael eu rhannu'n helaeth ac ar gael yn rhwydd. Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ehangu ein rhaglen o ddigwyddiadau cyhoeddus a gynhelir yn y brifysgol ac mewn cymunedau ledled Cymru.

Rydym yn gweithio hefyd gyda phartneriaid i gynyddu proffil treftadaeth ystadau Cymru, gan hyrwyddo nid yn unig y plastai grymus sy'n britho ein hardaloedd, ond hefyd profiadau'r bobl hynny sydd wedi byw a gweithio ar ystadau Cymreig dros y canrifoedd.

I gael rhagor o wybodaeth am y Sefydliad, ewch i http://iswe.bangor.ac.uk.



*Archifau a Chasgliadau Arbennig PB: Penrhyn 10.*

## NEWYDDION

### PLASTAI AC YSTADAU YN HANES CYMRU

**PRYS MORGAN YN RHOI DARLITH ARBENNIG AM SEFYDLIAD YMCHWIL YSTADAU CYMRU YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2015**

Roeddem yn falch iawn o gael ein cynrychioli yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru a gynhaliwyd ym Meifod, Powys ar ddechrau mis Awst y llynedd. Cyflwynodd yr Athro John Hughes, Is-ganghellor y Brifysgol, ddarlith arbennig SYYC a draddodwyd gan yr hanesydd nodedig yr Athro Prys Morgan, un o Is-lwyddion SYYC. Yn ei gyflwyniad bywiog, soniodd yr Athro Morgan am ddylanwad hanesyddol y teulu Lloyd o Ddolobran, sef plasty o fewn tafliad carreg i faes yr Eisteddfod. Cyfunodd hanes ystâd Dolobran gyda naratif ehangach am effaith y boneddigion a'u plastai yng nghymunedau Cymru o'r oesoedd canol hyd at heddiw. Wrth wneud hynny, tynnodd sylw at nifer o'r themâu allweddol, cwestiynau, ystyriaethau a dadleuon a fydd yn arwain blaenoriaethau ymchwil SYYC dros y blynyddoedd sydd i ddod, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw cael dadansoddiad newydd o rôl ystadau yn hanes a datblygiad Cymru.

Mae trawsgrifiad llawn o'r ddarlith ar gael ar ein gwefan yn http://iswe.bangor.ac.uk/newyddion/iswe-at-the-eisteddfod-25103



*Yr Athro John Hughes gyda'r Athro Prys Morgan yn yr Eisteddfod*

### TYNNU SYLW AT WERTH ARCHIFAU CYMRU YN FFORWM CYNGOR ARCHIFAU A CHOFNODION CYMRU

Roedd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn falch o fod yn bresennol yn fforwm blynyddol Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru ym mis Tachwedd. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Ngwesty Neuadd Maesmawr yng Nghaersws, a daeth cynrychiolwyr yno o swyddfeydd archifau a chofnodion o bob rhan o Gymru. Cafwyd cyfle gyda'r casgliad arbennig o gyflwyniadau i glywed am rai o'r mentrau cysylltu â'r gymuned a mentrau addysgol a chadwraeth arloesol sy'n digwydd ar hyn o bryd mewn archifau yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys prosiect Cymru gyfan Cynefin (ewch i http://cynefin.archiveswales.org.uk/) sy'n bwriadu atgyweirio, digideiddio a thrawsgrifio dros 1,200 o fapiau'r degwm a'u hatodiadau cysylltiedig erbyn mis Medi 2016! Ar ôl ei gwblhau, bydd y project torfoli uchelgeisiol a gwirfoddol hwn yn cynhyrchu adnodd ar-lein gwych i astudio ystadau Cymru.

Rydym yn sylweddoli yn Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru bod y casgliadau sy'n ymwneud â boneddigion ac ystadau a geir mewn archifau ledled Cymru o fudd cwbl anhepgor. Mae cael casgliadau archif y gellir mynd atynt yn rhwydd a'u defnyddio, ac sy'n cael eu cadw'n ofalus, yn sail allweddol i bopeth y gobeithiwn ei gyflawni. Defnyddiodd Dr Shaun Evans, Rheolwr Project SYYC, ei gyflwyniad yn y fforwm i drafod y gwahanol ffyrdd y gall y Sefydliad weithio gydag archifau yng Nghymru i gyflawni nodau ac amcanion cyffredin. Dros y misoedd sydd i ddod, bydd tîm Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn gweithio gyda Chyngor Archifau a Chofnodion Cymru a gwasanaethau archif unigol ar draws Cymru i drafod a datblygu ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar gasgliadau ystadau Cymru.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# NEWYDDION

## LANSIO CANOLFAN YR ALBAN YN NODI DIDDORDEB ACADEMAIDD UNIGRYW YN NHREFTADAETH YSTADAU

Roedd dau aelod o dîm y Sefydliad yn falch o dderbyn gwahoddiad i fynd i lansiad Centre for Scotland's Land Futures ym Mhrifysgol Dundee yn ôl ym mis Awst. Mae sefydlu'r Ganolfan yn golygu bod canolfannau ymchwil cenedlaethol a rhanbarthol penodol erbyn hyn sy'n canolbwyntio ar hanes defnydd tir, ystadau a phlastai yn yr Iwerddon, yr Alban, Glannau Tafwys, Swydd Efrog a Chymru.

Mae'r cyd-destun hwn yn gyffrous i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru. Mae gweithio mewn partneriaeth â chanolfannau ymchwil eraill yn ein galluogi i ddatblygu prosiectau thematig sy'n croesi ffiniau cenedlaethol a rhanbarthol, ac yn rhoi cyfleoedd i ni drefnu digwyddiadau ar y cyd mwy uchelgeisiol ar raddfa ryngwladol, Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, mae'r dull gweithredu cyfunol hwn yn golygu y gall yr holl ymchwil a wnawn yn y Sefydliad gael ei osod o fewn ymdriniaeth ehangach ynghylch swyddogaeth hanesyddol ystadau, gan ein galluogi i wneud cymariaethau ystyrlon rhwng gwahanol brofiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol - amrywiadau sydd, fel arall, yn aml yn anodd eu canfod.



*Thomas Hudson, darlun o Syr Watkin Williams-Wynn, 3ydd Barwnig (1692-1749), c.1745 [Hawlfraint Oriel Miles Wynn Cato].*

## GWEITHDY YN ARCHWILIO SWYDDOGAETH YR ASIANT TIR

Ym mis Hydref, cynhaliwyd gweithdy ar hanes yr asiant tir gan Brifysgol Dundee. Trefnwyd 'The Land Agent in transnational context: an interdisciplinary context' gan Dr Lowri Ann Rees o Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru ynghyd â Dr Annie Tindley (Centre for Scotland's Land Futures) a Dr Ciaran Reilly (Centre for the Study of Historic Irish Houses and Estates).

Yr enw arnynt yng Nghymru ac Iwerddon oedd 'asiantau tir' a 'ffactorau' yn yr Alban, a thynnwyd sylw at rôl a dyletswyddau'r dynion canol hyn mewn nifer o bapurau diddorol. Roeddent yn cynnwys astudiaethau achos penodol am asiantau ac ystadau, myfyrdod ar effaith ffactorau allanol fel terfysgoedd, gwrthryfeloedd a chwyldroadau a dyfodiad y rheilffyrdd, a'r mater o asiantaethau tir gartref a thramor yn y Caribî. Cafwyd trafodaethau bywiog ar ôl pob un o'r tri phanel, a gwelwyd tebygrwydd trawiadol rhwng yr Alban, Iwerddon a Chymru. Cynrychiolwyd Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru gan Dr Lowri Ann Rees ac Einion Thomas a gyflwynodd bapurau am eu hymchwil i Neuadd Middleton ac ystadau Penrhyn.

Mae cyhoeddiad yn seiliedig ar gynnwys y gweithdy yn cael ei lunio ar hyn o bryd gan y pwyllgor trefnu sy'n bwriadu cynnal digwyddiad tebyg yn y dyfodol agos i barhau gyda'r drafodaeth.



*Beddrod yn Eglwys Llandygai i Benjamin Wyatt (1745-1818) a'i fab James Wyatt (1795-1888), asiantau a wasanaethodd yn hir ar Ystâd y Penrhyn.*

## DARGANFYDDIAD YN TAFLU GOLEUNI NEWYDD AR BORTREADAU CYMREIG CYNNAR

Yn ystod ei ymchwil diweddar i deulu ac ystâd Mostyn yn ystod yr unfed a'r ail ganrif ar bymtheg, daeth Dr Shaun Evans o hyd i bortread panel bach yn Neuadd Mostyn yn Sir y Fflint. Mae'r portread yn enghraifft eithaf nodweddiadol o waith brodorol, taleithiol ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg ond nid ydym yn gwybod pwy yw'r arlunydd na'r unigolyn yn y llun, fel sy'n wir am nifer o'r portreadau a welir mewn tai yng Nghymru. Yn y ddeunawfed ganrif, daeth Thomas Pennant i'r casgliad mai portread oedd hwn o Robert Wynn (d.1598), adeiladwr Plas Mawr, Conwy, ond mae'r arysgrifau ar y panel yn golygu nad yw'r priodoliad hwn yn bosibl. Yn hytrach, maent yn cadarnhau i'r portread gael ei baentio yn 1621 pan oedd gwrthrych y llun yn 53 oed - sy'n golygu bod Syr Roger Mostyn (c.1568-1642), pennaeth dylanwadol teulu'r Mostyn, yn un o'r ymgeiswyr pennaf. Gellir gwneud honiad mwy pendant am enw'r arlunydd. Mae dau fonogram 'RH' ar y panel yn cadarnhau iddo gael ei baentio gan Randle Holme (c.1570-1655) dirprwy herodr Swydd Gaer, Sir Gaerhirfryn a gogledd Cymru yr oedd ei weithdy llewyrchus yn darparu'r rhan fwyaf o'r trugareddau yr oedd eu hangen ar gyfer angladdau'r boneddigion a oedd yn byw yng nghefnwlad helaeth dinas Gaer.

Bu Dr Evans yn cydweithio ag arbenigwr portreadau rhanbarthol cynnar sef yr Athro Robert Tittler (Prifysgol Concordia, Canada) i ddatrys stori'r portread. Dyma'r portread cyntaf y gellir ei briodoli i Holme; ac yn hyn o beth mae'r darganfyddiad yn gyfraniad pwysig at ddeall diwylliant gweledol Cymru.

Cyhoeddwyd y canfyddiadau yn S. Evans a R. Tittler, 'Randle Holme the elder and the development of portraiture in North Wales, c. 1600–1630', *The British Art Journal* XVI, 2 (2015), tt. 24-29.



*Gyda diolch i Mostyn Estates Ltd.*

## CYLLID WEDI'I SICRHAU AR GYFER CADWRAETH MAPIAU YSTÂD Y PENRHYN

Roedd Archifau Prifysgol Bangor yn falch o glywed eu bod yn llwyddiannus gyda'u cais diweddar i'r National Manuscripts Conservation Trust (NMCT). O ganlyniad i bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r NMCT, bydd y grant yn golygu y gellir gwneud gwaith cadwraeth angenrheidiol ar fapiau gwerthfawr sy'n rhan o gasgliad ystâd y Penrhyn a gedwir yn yr Archifau.

Mae'r casgliad 'Mapiau Ychwanegol Penrhyn' yn rhoi tystiolaeth gyfoethog i ddadansoddi materion fel rheoli ystadau, defnydd tir a daliadaeth, patrymau perchenogaeth, adeiladau hanesyddol, astudio tirwedd a chartograffeg ar un o'r ystadau amlycaf yng ngogledd Cymru. Mae'r mapiau yn dyddio o ganol y ddeunawfed ganrif i ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae rhai o'r mapiau hefyd yn bwysig o ran cofnodi hanes cymdeithasol dinas Bangor. Er enghraifft, lluniwyd un o'r mapiau (Penrhyn/2219) o ganlyniad i'r epidemig geri marwol a drawodd Fangor yn y 1850au ac mae'n darparu deunydd ymchwil gwerthfawr i ddadansoddi'r cyfnod.

Nod y prosiect yw cynnal gwaith cadwraeth hanfodol ar nifer o fapiau yn y casgliad. Oherwydd cyflwr bregus y mapiau, nid yw'r Archifau wedi gallu rhoi mynediad i'r dogfennau gwerthfawr hyn ers peth amser. Bydd y cyllid yn cyfrannu at genhadaeth yr Archifau o ofalu am y dogfennau sydd yn eu gofal a sicrhau mynediad mor eang â phosibl atynt.



*Archifau a Chasgliadau Arbennig PB: Penrhyn 2202 - Cynllun o diroedd y Penrhyn ym mhlwyf Bangor, c.1760.*

# NEWS

## SYYC YN CEFNOGI YMGYRCH I AILSEFYDLU MYNEDIAD I GOFNODION SIR GAERFYRDDIN

Ym mis Mehefin, cynhaliodd y Sefydliad ei ail ddiwrnod astudio blynyddol yng Ngerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru yn Llanarthne, Sir Gaerfyrddin. Yn ystod y digwyddiad cafwyd cyfres o gyflwyniadau diddorol am hanes gwahanol deuluoedd bonedd ac ystadau yn ne orllewin Cymru.  Daeth llawer o bobl i'r digwyddiad ac ysgogwyd trafodaethau grŵp pwysig gan y cyflwyniadau am waith hanfodol bwysig gwasanaethau archif y sir yn cynnal ymchwil i hanes lleol a hanes Cymru.

Cymerodd nifer o'r cynadleddwyr y cyfle i fynegi pryderon difrifol am sefyllfa Archifau Sir Gaerfyrddin sydd wedi cau i'r cyhoedd ers rhai misoedd am fod llwydni wedi cael ei ganfod ymhlith y casgliadau. Pwysleisiwyd y pwynt hwn gan Dr Lowri Ann Rees o'r Sefydliad a ddywedodd y bu'r casgliadau a gedwir yn Archifau Sir Gaerfyrddin yn hanfodol i'w hymchwil doethurol i hanes ystâd Neuadd Middleton.

O ganlyniad i'r trafodaethau, addawodd Nia Powell y byddai'n cysylltu â'r awdurdodau perthnasol i gael rhagor o fanylion am y sefyllfa ac annog datrysiad a fyddai'n gweld y casgliadau yn cael eu glanhau a'u gwneud yn agored i ymchwilwyr ac aelodau o'r gymuned leol. Anfonwyd llythyron at Gyngor Sir Gâr, Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru, (CyMAL o'r blaen) a'r Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, yr Archifau Cenedlaethol a nifer o Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol.

Ym mis Tachwedd roedd y Sefydliad yn falch o glywed bod Cyngor Sir Gâr wedi addo £2 filiwn tuag at godi adeilad newydd pwrpasol ar gyfer archifau'r sir, a fydd, gobeithio, yn sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y casgliadau.

## TAITH MAES MYFYRWYR I NEUADD MAENAN

Bu grŵp o fyfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn yn yr Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg yn ymweld â Neuadd Maenan ger Llanrwst ym mis Rhagfyr. Roedd y daith maes yn rhan o'r modiwl Cymru ac Ewrop yn y Dadeni, ac yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr wella eu dealltwriaeth o ddiwylliant y bonedd yn yr unfed ganrif ar bymtheg yng Nghymru, trwy astudiaeth achos a ddarparwyd gyda phrofiad y teulu Kyffin. Cafwyd taith llawn gwybodaeth dan arweiniad perchennog Neuadd Maenan, Mr. Christopher McLaren, a thynnodd sylw at nifer o nodweddion pensaernïol a oedd wedi cael eu hymchwilio'n ddiweddar gan y Grŵp Dyddio Hen Dai Cymreig, a gwahoddodd y myfyrwyr i ddehongli'r gwaith plastr herodrol o'r unfed ganrif ar bymtheg yn y tŷ.  I gloi, gofynnwyd i fyfyrwyr ddadansoddi nifer o ddogfennau yn ymwneud â hanes y teulu a'r ystâd sy'n rhan o gasgliad Llawysgrifau Neuadd Maenan yn Archifau Prifysgol Bangor. Cytunodd pob un o'r myfyrwyr bod yr ymweliad wedi cyfoethogi eu profiad dysgu.

*Arddangosfa o waith plastro o'r 16eg ganrif, yn cynnwys arfbais Elisabeth I, yn Neuadd Maenan Maurice Kyffin.*



## PAPURAU CAERYNWCH WEDI'U RHOI I ARCHIFAU'R BRIFYSGOL

Ym mis Chwefror 2015 roedd Archifau Prifysgol Bangor yn falch iawn o dderbyn casgliad o bapurau yn ymwneud ag ystâd amlwg Caerynwch ger Dolgellau. Lluniwyd y gweithredoedd a'r dogfennau gan deuluoedd Vaughan, Humphries a Richards Caerynwch yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan roi gwybodaeth werthfawr am effaith yr ystâd ar gymdeithas Sir Feirionnydd yn ystod y cyfnod.

Ar hyn o bryd mae'r Archifau a Chasgliadau Arbennig yn ymchwilio i gyfleoedd catalogio'r casgliad.   Mae papurau eraill yn ymwneud ag ystâd Caerynwch yng nghangen swyddfa gofnodion Meirionnydd o Archifau Gwynedd a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

# CYFRES SEMINARAU SYYC 2016

## ADRODDIADAU UNIONGYRCHOL YN DATGELU PROFIADAU'R TENANT A'R STIWARD TIR


Ar ddechrau 2016 yr oeddem yn falch o groesawu siaradwyr i'r seminarau ym Mangor i rannu eu profiadau o weithio a byw ar dir tair ystâd flaenllaw yng ngogledd Cymru.

Ar 28 Ionawr ymunodd Megan Hughes Tomos â ni i gyflwyno papur cyfoethog ar ffurf hanes llafar: 'Ystâd trwy lygaid y tenant'. Mae'r berthynas rhwng tirfeddiannwr a thenant yn cynrychioli agwedd bwysig o fywydau cymunedau ar hyd a lled Cymru ers canrifoedd, gyda'r berthynas hon wedi cael dylanwad dwfn ar ymwybyddiaeth y gymuned Gymreig. Yn ei chyflwyniad, aeth Megan ati i drafod profiadau ei theulu fel tenantiaid ar ystâd Rhug yng Nghorwen, Sir Feirionnydd, yng nghanol yr 20fed ganrif. Roedd ei thad, William Hughes Jones, yn ffermio Plas-yn-Ddôl fel tenant i'r Arglwydd Newborough am gyfnod helaeth o'i fywyd. Mewn datganiad hynod o ddiddorol, rhannodd Megan ei hatgofion o'r digwyddiadau a'r straeon a luniodd berthynas ei theulu gyda'r tir a'r gymdogaeth.

Roedd ein seminar ar 11 Chwefror yn canolbwyntio ar swyddogaeth allweddol arall yng nghymuned yr ystâd, y Stiward Tir. Mae'r Stiward Tir wedi chwarae rhan hanfodol fel rheolwyr ystadau yng Nhymru dros gannoedd o flynyddoedd. Pleser mawr oedd croesawu Richard Thomas a Tim Bowie, Stiwardiaid Tir cyfoes dwy o brif ystadau gogledd Cymru – Mostyn a Bodorgan – i adlewyrchu ar eu profiadau dros y degawdau diwethaf a chynnig mewnwelediad i flaenoriaethau a gweithgarwch ystadau yng Nghymru'r 21eg ganrif. Ymysg y themâu a drafodwyd yr oedd datblygiad tref Llandudno yn gyrchfan adwerthu a thwristiaeth ac adeiladu Trac Môn ar Ynys Môn. Bu'r siaradwyr hefyd yn canolbwyntio ar faterion megis amaethyddiaeth, deddfwriaeth, cynnyrch lleol, cynaliadwyedd amgylcheddol, yr iaith Gymraeg a'r berthynas gyda thenantiaid. Roeddent hefyd yn hapus i ateb toreth o gwestiynau gan fintai sylweddol o fyfyrwyr Coedwigaeth a oedd yn y gynulleidfa.

Fe fydd seminarau ymchwil SYYC yn ail-ddechrau nes ymlaen yn hydref 2016. Am fwy o wybodaeth, ewch i'n tudalennau digwyddiadau ar http://iswe.bangor.ac.uk neu cysylltwch â iswe@bangor.ac.uk






*Fforwm Undydd / One-day Forum*

**CYMRU A'R ALBAN MEWN YSGRIFAU TEITHIO O EWROP**

**WALES AND SCOTLAND IN EUROPEAN TRAVEL WRITING**

Dydd Sadwrn, 16 Ebrill 2016 / Saturday, 16 April 2016

Llyfrgell Genedlaethol Cymru / National Library of Wales
Aberystwyth

*Dyddiad cau ar gyfer cofrestru yw 6 Ebrill / The closing date for registration is 6 April.*

*Y ffi gofrestru ar gyfer y fforwm, gan gynnwys coffi yn y bore, cinio a the yw £15 (£10.00 i'r di-waith) / The registration fee for the forum, including morning coffee, lunch and tea, is £15 (£10.00 unwaged).*

**e-bost / e-mail: a.elias@cymru.ac.uk**

## AILYSTYRIED YSTADAU

Ar 29 Ionawr traddododd Nia Powell ddarlith gyhoeddus i gangen Bangor Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru yn yr Hen Goleg, Prifysgol Bangor. Roedd y ddarlith hon, a gafodd ei chyflwyno yn Gymraeg, yn canolbwyntio ar uchelgais ISWE i ailystyried y dehongliadau sydd wedi hen wreiddio er mwyn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r rôl y mae ystadau wedi ei chwarae yn hanes Cymru.

Ar 18 Mawrth rhoddodd Dr Lowri Ann Rees gyflwyniad ugain munud ar uchelgeisiau'r SYYC fel rhan o sesiwn Pot Pourri a drefnwyd gan Gymdeithas Hynafiaethwyr Sir Fôn yn Oriel Ynys Môn, Rhosmeirch, Llangefni.

## PROSIECTAU CYFREDOL

### EINION WYN THOMAS:

### DATBLYGU YSTADAU HELWRIAETH YNG NGOGLEDD CYMRU AR DDIWEDD Y 19EG GANRIF

Cyn ei ymddeoliad y llynedd, bu Einion yn brif archifydd Prifysgol Bangor am 12 o flynyddoedd a bu'n rhan allweddol o ffurfio Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru.  Ym mis Medi dechreuodd ar astudiaeth ymchwil ôl-radd yn yr Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg. Mae ei brosiect yn canolbwyntio ar effaith y Deddfau Helwriaeth ar gymdeithas wledig yng ngogledd Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn arbennig, sut yr oedd tirfeddiannwyr Cymru yn defnyddio'r cyfreithiau hyn i ddatblygu ystadau helwriaeth.

Bydd ystâd Rhiwlas, ger Bala yn yr hen sir Feirionnydd yn astudiaeth achos bwysig i'r ymchwil, yn arbennig yn ystod cyfnod Richard John Lloyd Price (1843-1923).  Ar ôl etifeddu'r ystâd yn 1862 aeth ati i drawsnewid Rhiwlas o fod yn ystâd amaethyddol gan fwyaf i fod yn un o'r ystadau helwriaeth enwocaf yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r pwnc yn rhoi cyfle i ddadansoddi amrywiaeth o themâu a materion hanesyddol. Cafodd y datblygiadau yn Rhiwlas effaith fawr ar y dirwedd, gyda phlannu coedwigoedd a chuddfannau i'r anifeiliaid ac adar hela guddio ac adeiladwyd cwningaroedd a llefydd ffesantod ymysg nifer o bethau eraill.

Bwriad y prosiect hefyd yw dadlennu hanesion newydd am ddiddordebau hamdden a gwerthoedd diwylliannol boneddigion Cymru a rheolaeth ariannol eu tirddaliadaeth. Mae'r prosiect hefyd yn rhoi cyfle diddorol i edrych ar y berthynas rhwng tirfeddiannwyr a'u tenantiaid a'u dadansoddi, archwilio effaith cyflwyno'r ciperiaid i ystadau Cymru a phwyso a mesur swyddogaeth potsio.

Defnyddia Einion gasgliad amrywiol o gofnodion ystadau a gedwir yn Archifau Prifysgol Bangor, Archifau Gwynedd a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gefnogi'r ymchwil hwn. Mae hefyd yn defnyddio cofnodion y sesiynau chwarterol, erthyglau papur newydd, adroddiadau Seneddol a'r dystiolaeth a roddwyd o flaen Comisiwn Brenhinol Tir yng Nghymru a Sir Fynwy (1896).




*Richard John Lloyd Price o Riwlas, Vanity Fair (10 Hydref 1885).*



*Ciperiaid ar Stâd Rhiwlas c.1880au [Gyda diolch i Einion Wyn Thomas].*

# SARAH VAUGHAN: SIWGR A LLECHI: CATALOGIO CASGLIAD YSTÂD Y PENRHYN

Yn 2015 dechreuwyd gweithio ar brosiect i gwblhau catalogio papurau ystâd y Penrhyn a gedwir yn Archifau Prifysgol Bangor. Mae casgliad Penrhyn yn un o'r casgliadau ystadau mwyaf cynhwysfawr ac addysgiadol yng Nghymru ac yn cynnig adnodd eithriadol i ddadansoddi sawl agwedd ar hanes dros gyfnod o 700 mlynedd. Cynhyrchwyd catalogau copi caled ar ôl i ddau gasgliad mawr gael eu rhoi yn y brifysgol yn 1938 a 1966, ond dros y degawdau dilynol roedd llawer iawn o ddeunyddiau ychwanegol yn parhau heb eu catalogio.

O ganlyniad i gyllid gan y Rhaglen Grantiau Catalogio Cenedlaethol, mae'r Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig wedi gallu penodi Sarah Vaughan fel Archifydd Prosiect i astudio a disgrifio fesul eitem oddeutu 47 medr llinellol, yn ôl yr amcangyfrif, o bapurau Penrhyn heb eu catalogio.

Unwaith y caiff ei gwblhau, bydd cofnodion y catalog ar gael i'w chwilio drwy'r catalog ar-lein (http://calmview.bangor.ac.uk/CalmView).

Mae'r papurau heb eu catalogio yn ymestyn o'r ail ganrif ar bymtheg i'r ugeinfed ganrif ac yn cynnwys amrywiaeth anhygoel o ddeunyddiau, hyd yn oed casgliad sylweddol o fachau pysgota! Mae'r casgliad o weithredoedd, gohebiaeth a dogfennau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r tŷ a'r ystâd yn llawn gwybodaeth gan gynnwys casgliad o lyfrau arolwg o'r ystâd a luniwyd yn y 1920au. Yn ogystal â rhoi gwybodaeth fanwl am eiddo unigol a'u tenantiaid maent hefyd yn cynnwys brasluniau a chynlluniau wedi'u gwneud â llaw o adeiladau ar yr ystâd. Mae'r casgliad hefyd yn cynnwys toreth o ddeunydd am ddau o brif fuddsoddiadau'r teulu: eu chwareli llechi ym Methesda a'u planhigfeydd siwgr yn Jamaica (yn cynnwys cofrestri caethweision, rhestrau o gnydau, gohebiaeth a dogfennau ariannol).

Mae Sarah yn rhoi gwybodaeth am ei darganfyddiadau bob mis yn http://www.bangor.ac.uk/archives/sugar_slate.php.cy#updates.



*Sarah yng Nghastell Penrhyn*.

# SAM GARLAND: NEWYDDION DDIWEDD YR AIL GANRIF AR BYMTHEG YM MHRYDAIN: NEWYDDLENNI MOSTYN

Ers ei lansio yn 2009, mae 'Prosiect Mostyn' wedi cefnogi tair efrydiaeth ddoethurol sydd wedi canolbwyntio ar wahanol agweddau ar y casgliadau hanesyddol cyfoethog sy'n ymwneud â'r teulu a'r ystâd. Yn ei broject PhD, mae Sam Garland wedi bod yn defnyddio'r casgliad gwych o newyddlenni llawysgrifol a anfonwyd at Thomas Mostyn o Gloddaith (c.1652-92) fel astudiaeth achos i ymchwilio i'r pwnc ehangach o newyddion ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg ym Mhrydain.

Er bod cyhoeddi newyddion wedi digwydd yn achlysurol mewn cylchoedd cymdeithasol a gwleidyddol cyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, rhwng y 1660au a dechrau'r 1700au y daeth newyddion rheolaidd i'r amlwg a datblygodd i fod yn rhan fwy parhaol o ddiwylliant Prydain, a'u darllen yn frwdfrydig gan y cyhoedd a oedd yn gynyddol wleidyddol.

Yn draddodiadol, mae haneswyr wedi edrych ar y cyfnod hwn i egluro sut mae'r wasg newyddion wedi datblygu ei nodweddion modern. Wrth wneud hynny, maent wedi canolbwyntio eu sylw yn helaeth ar ddatblygiad y cyfnodolyn printiedig, a'i effaith ar gymdeithas. Serch hynny, drwy ei ddadansoddiad o newyddlenni Mostyn, dadl Sam yw bod ffurf hŷn o ledaenu newyddion (er enghraifft, mewn ysgrifen ac ar lafar) yn cynnig portread cynharach o'r nodweddion sydd wedi eu priodoli i brint. Mae'r ffurfiau hŷn hyn o newyddion yn cynnig lefel o sefydlogrwydd a moderndeb na welir yn aml ym mhapurau printiedig y cyfnod, boed o ran dilysrwydd y cynnwys, ehangder y sylw neu gyfoesedd.

Trwy ddefnyddio astudiaethau achos, mae Sam yn archwilio cyfnodau a digwyddiadau penodol i ystyried effaith newyddion ar wleidyddiaeth a chymdeithas, a sut mae ffurfiau traddodiadol o newyddion yn cynnig ffordd fwy 'modern' o ddarparu newyddion ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg.

I gael rhagor o wybodaeth am 'Brosiect Mostyn' ewch i http://www.imems.ac.uk/mostyn.php.cy.

## DIGWYDDIADAU I DDOD

### Ysgol undydd flynyddol SYYC 2016: Gogledd-ddwyrain Cymru:

**25 Mehefin, 2016** - Neuadd Mostyn, Sir y Fflint.

Yn dilyn llwyddiant tair ysgol undydd flaenorol, a gynhaliwyd gan SYYC yn Sir Gaernarfon, Sir Feirionnydd a Sir Gaerfyrddin, eleni byddwn yn canolbwyntio ar ddylanwad hanesyddol ystadau yn Ninbych a Sir y Fflint.

I dderbyn y gwybodaeth am y digwyddiad hwn, a holl ddigwyddiadau SYYC sydd i ddod, ymunwch â'r rhestr bostio wrth yrru e-bost at iswe@bangor.ac.uk.

### Darlith Gyhoeddus:

**24 Mehefin 2016:**

Fe fydd Dr. Shaun Evans yn traddodi darlith flynyddol Grŵp Dyddio Hen Dai Cymreig ar ddylanwad teulu Mostyn, o dan y teitl 'Status, Honour and Authority in 16th and 17th century Wales: The Mostyn Family Influence'.

2.30yp, Neuadd Gymunedol Llandrillo, Llandrillo, ger Corwen. Am fwy o fanylion ewch i http://www.datingoldwelshhouses.co.uk/.




## DIGWYDDIADAU

### TYMOR AGORIADOL PONTIO YN ADLEWYRCHU HANES YSTADAU PENRHYN A BRYNDDU

Cynhaliodd Canolfan Celfyddydau ac Arloesi newydd Prifysgol Bangor ddau gynhyrchiad yn seiliedig ar hanes a diwylliant ystadau gogledd Cymru fel rhan o'i rhaglen gyntaf o ddigwyddiadau.

***Chwalfa* (Chwefror 2016)**

Addaswyd y ddrama hon o nofel T. Rowland Hughes (1903-49) am Streic Fawr Chwarel y Penrhyn, a daeth ag aelodau o'r gymuned a pherfformwyr profiadol at ei gilydd i bortreadu profiad chwarelwyr gogledd Cymru yn ystod anghydfod diwydiannol hwyaf y genedl rhwng 1900-03.




### Mr Bulkeley o'r Brynddu (26 Ebrill 2016)

Mae dyddiaduron William Bulkeley (1691-1760) a gedwir gan Archifau Prifysgol Bangor yn cynnig darlun byw o fywyd ar Ynys Môn yn y ddeunawfed ganrif. Roedd y cynhyrchiad dramatig a cherddorol hwn yn seiliedig ar ddyfyniadau o'r dyddiaduron, ac yn portreadu bywyd a phrofiadau'r gŵr bonheddig o Frynddu, Llanfechell.

I gael amseroedd perfformiadau eraill Pontio a gwybodaeth am archebu tocynnau a rhagor o fanylion ewch i www.pontio.co.uk neu ffoniwch 01248 382828.

# EGLURO'N LOGO

Nid oedd cael logo priodol i Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru yn dasg hawdd! Mae'r cynllun a fabwysiadwyd gennym yn y diwedd yn cynnwys dwy elfen allweddol y credwn ni sy'n cynrychioli rhai o'n blaenoriaethau, gwerthoedd a diddordebau craidd.

Yr aradr:

Am ganrifoedd lawer bu'r offer allweddol hwn yn rhan hanfodol o ystadau Cymru. Dyma'r peiriant sylfaenol a oedd yn cysylltu dyn â'r tir ac roedd yn gyfystyr â gofalu am y dirwedd a'i meithrin i dyfu cnydau. Yn yr oesoedd canol defnyddid delweddau amaethyddol yn helaeth yn y canu mawl Cymraeg, gyda noddwyr yn cael eu canmol yn gyson am eu hwsmonaeth dda o'r tir gan ddarparu cynhaliaeth i'r gymdogaeth gyfagos. Parhaodd yr aradr i wneud cyfraniad enfawr i ffyniant economaidd ystadau ymhell i'r ugeinfed ganrif. Roeddem yn credu ei bod yn briodol iawn i'r aradr fod yn rhan ganolog o'n brand, yn deyrnged i'r miloedd sydd wedi ffermio daear Cymru dros genedlaethau dirifedi.



*Y ceffylwr Thomas John Ellis (1896-1973) tu ôl i'r aradr gyda'r ceffylau 'Rain' a 'Storm' yn gweithio ar Ystâd Mostyn yn Sir y Fflint;*

***Y plasty:***

Mae plastai'n rhan amlwg o'r dirwedd ym mhob cornel bron o Gymru. Y rhain oedd y canolfannau grym ynghanol ystadau tiriog y wlad. Mae llawer o'r adeiladau hyn yn dal yn eiddo i deuluoedd sydd wedi bod ynddynt ers cenedlaethau; gofelir am eraill gan sefydliadau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol; ond mae llawer gormod wedi cael eu dymchwel neu wedi dirywio i gyflwr enbyd ac yn wynebu difodiant.



*Archifau a Chasgliadau Arbennig PB: 'Ynysmaengwyn' O J. Baker, A Picturesque Guide Through Wales (1795).*

Mae'r adeilad a welir yn ein logo wedi ei seilio ar ddiwyg un o'r tai hynny sydd bellach wedi eu dymchwel: Ynysmaengwyn yn Nhywyn, Meirionnydd. Cafodd y tŷ brics neilltuol hardd yma ei ailadeiladu yn 1758 ar safle a oedd wedi chware rhan bwysig yn y gymdogaeth am ganrifoedd. Yn yr oesoedd canol, ac ymhell ar ôl hynny, roedd ei breswylwyr yn noddwyr brwd i'r beirdd Cymraeg ac, er gwaethaf sawl methiant i gael etifedd gwrywaidd, bu'r teuluoedd Wynn a Corbett - yn arbennig John Corbett (1817-1901) - yn parhau i gyfrannu at weithgareddau'r ardal gyfagos o'r unfed ganrif ar bymtheg ymlaen. Rywbryd ar ôl 1951 rhoddwyd yr ystâd i'r cyngor lleol, a fethodd â chynnal a chadw'r adeilad. Defnyddiwyd y tŷ i hyfforddi milwyr a dynion tân cyn iddo gael ei ddymchwel yn y diwedd yn 1965.

Cedwir casgliadau'n ymwneud ag ystâd Ynysmaengwyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a changen swyddfa gofnodion Meirionnydd o Archifau Gwynedd.

Rydym yn credu bod plastai Cymru'n rhan eithriadol bwysig o'n treftadaeth genedlaethol ac y gallant chwarae rhan allweddol yn amlygu hanes amrywiol y cymdogaethau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Trwy ymchwil, trafod a chydweithio rydym yn benderfynol o ddatgloi'r potensial hwnnw.

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Fflint 2016

urdd.org
Urdd Gobaith Cymru

**Dr. Shaun Evans**

# THE MOSTYN FAMILY INFLUENCE:

## DISCUSSING ASPECTS OF OUR AREA'S PAST



Darlith Gyhoeddus
Dydd Llun, 14 Mawrth 2016
7.30pm

Public Lecture
Monday, 14 March 2016
7.30yp

Ysgol Gymraeg Mornant, Picton, Penyffordd, Sir y Fflint, CH8 9JQ

**CROESO IBAWB**

**ALL WELCOME**

*£3 rhodd lleiaf tuag at yr apêl eisteddfod*

*£3 minimum donation towards the eisteddfod appeal*

## PENODIAD NEWYDD

Roedd yn bleser gan Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru gyhoeddi penodi Dr Shaun Evans fel rheolwr prosiect ym mis Medi. Yn y swydd newydd hon, mae Shaun yn gyfrifol am weithio gyda chydweithwyr SYYC i hyrwyddo datblygiad y sefydliad.



## CYSWLLT

Os hoffech drafod unrhyw agwedd ar ddatblygiad Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, buasem yn croesawu eich sylwadau ac awgrymiadau.

**Ysgrifennwch at:** Dr Shaun Evans, Sefydliad Ymchwil Ystadau Cymru, Prifysgol Bangor, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG

**Ffôn:** 01248 383617

**E-bost:** iswe@bangor.ac.uk